Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig:
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development:
Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



www.cymru.gov.uk


# Glastir

## Glastir Organig

## Cynllun Busnes – Llyfryn Canllaw 2017

## Cymunedau Gwledig Llwodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020



©Crown Copyright 2016 ISBN 978-1-4734-7656-1

**Cynnwys**

Prif Bwyntiau ………………………………………………………………. **4**

Adran A – Cyflwyniad ……………………………………………………… **5**

Adran B – Sut i Lenwi ……………………………………………………… **7**

Adran C – Manylion Cysylltu a ffynonellau gwybodaeth eraill ……….. **11**

**Prif Bwyntiau**

Bydd angen ichi lenwi Cynllun Busnes Glastir Organig er mwyn cydymffurfio â'ch Contract Glastir Organig.

Rhaid cwblhau'r Cynllun Busnes a'i gyflwyno i Daliadau Gwledig Cymru (RPW) erbyn 31 Rhagfyr 2017 trwy RPW Ar-lein.

Rhaid ichi baratoi a chyflwyno'r cynllun hwn er mwyn cydymffurfio â'ch Contract Glastir Organig.  Ni fyddwn yn gallu dilysu'ch hawliad Glastir Organig 2017 ar gyfer ei dalu nes i'ch Cynllun Busnes cyflawn ein cyrraedd.

Rydym wedi paratoi templed sy'n gofyn am yr wybodaeth sydd ei hangen.  Mae croeso ichi ddefnyddio'ch templed eich hun cyn belled â bod ynddo o leiaf yr un wybodaeth ag a ddisgrifir yn y templed.

**Adran A – Cyflwyniad**

Mae'r Cynllun Busnes Glastir Organig hwn wedi'i ysgrifennu ar gyfer y rheini sydd â chontract Glastir Organig eisoes. Mae wedi'i lunio i'ch helpu i nodi'r cyfleoedd a'r rhwystrau ar gyfer datblygu'ch busnes organig. Bydd yn eich helpu i weld pa gamau sydd eu hangen i wneud y newidiadau sydd eu hangen.

Bydd y cynllun yn eich helpu i weld ble mae risg ichi fynd yn groes i'ch Corff Ardystio Organig. Os bydd eich Corff Ardystio'n penderfynu peidio ag ardystio tir sy'n rhan o'ch contract Glastir Organig, caiff y tir hwnnw ei dynnu o'ch Contract Glastir Organig ac efallai y bydd yn rhaid ichi dalu unrhyw arian a dalwyd hyd hynny yn ôl.

Nid oes gwybodaeth yn y Cynllun Busnes hwn am yr ardystiad organig nac a ydych yn gymwys am y cynllun Glastir Organig.

Mae templed ar wefan Glastir Organig sy'n dangos yr wybodaeth sydd ei hangen. Mae croeso ichi ddefnyddio'ch templed eich hun cyn belled â bod ynddo o leiaf yr un wybodaeth ag a ddisgrifir yn ein templed ni.

Nid yw'r cynllun hwn i fod yn gynhwysfawr, ond ceir ynddo gyfres o gwestiynau i wneud yn siŵr eich bod wedi ystyried y prif bwyntiau i gyd, ac os oes angen, mae'n esbonio beth y dylech ei wneud nesaf. Er enghraifft, mae'r cynllun yn gofyn ichi wneud yn siŵr eich bod wedi ystyried yr opsiynau marchnata, ond nid yw'n cynnwys cynllun marchnata manwl.

Bydd y cynllun yn eich helpu hefyd i weld a oes angen rhagor o seilwaith arnoch, fel peiriannau neu adeiladau, ond nid yw'n ystyried eu costau. Rydyn ni'n eich cynghori'n gryf i ystyried effeithiau ariannol unrhyw newidiadau (o ran eu heffaith ar eich cyllideb ariannol ac ar eich costau cyfalaf) cyn dechrau ar raglen ddatblygu.

Rydyn ni wedi darparu nifer o daenlenni Excel fel opsiynau i'ch helpu i baratoi'r cynlluniau hyn. Nid oes rheidrwydd arnoch i'w llenwi na'u cyflwyno i Taliadau Gwledig Cymru (RPW).

Ni fyddwn yn defnyddio'r Cynllun Busnes na'r taenlenni opsiynol i gadarnhau'ch bod yn cadw at eich contract Glastir Organig.

Y dyddiad cau ar gyfer paratoi'r Cynllun Busnes a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru yw 31 Rhagfyr 2017.

**Gwasanaeth Cynghori Cyswllt Ffermio**

Ni fydd Cyswllt Ffermio yn gallu'ch helpu i baratoi'r cynllun busnes ond fe all gynnig cyngor penodol, cyfrinachol, annibynnol a rhad. Ar gyfer unigolion, ceir cymhorthdal o hyd at 80% ar gyfer hyd at €1500 o gostau cynghori, hynny ar gyfer busnesau cofrestredig. Mae cyngor ar gael hefyd ar gyfer 'grwpiau' o unigolion sydd am gydweithio i ystyried yr un pwnc neu bynciau tebyg. Ceir cymhorthdal o hyd at 100% ar gyfer hyd at €1,500 o gostau cynghori, i bob aelod o'r grŵp.

Cynhyrchu Organig yw un o'r categorïau cymorth/cyngor technegol sydd ar gael trwy'r Gwasanaeth Cynghori. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Cyswllt Ffermio ar 08456 000 813.

**Adran B – Sut i Lenwi**

Rydyn ni'n eich cynghori i ofalu bod copi o'ch Contract Glastir Organig a safonau'ch Corff Ardystio Organig wrth law cyn paratoi'ch cynllun.

Nid yw'r llyfryn hwn yn cynnig cyngor manwl ar sut i ateb pob cwestiwn. Rydyn ni'n credu bod y templed yn ddigon syml a bod y cwestiynau'n hunan-esboniadol ac yn hawdd eu deall.

Mae'r cynllun wedi'i wneud o nifer o gwestiynau, ac 'ie', 'na' neu 'ddim yn berthnasol' yw'r ateb i'r rhan fwyaf ohonyn nhw. Gallwch roi 'Ie', 'Na' neu 'Ddim yn berthnasol' yn y blwch ateb wrth ochr dde'ch cwestiwn. Bydd ambell gwestiwn yn gofyn am restr fer.

Rydyn ni wedi nodi ychydig o bwyntiau cryno ar ôl llawer o'r cwestiynau. Dylech eu darllen a'u hystyried wrth ateb y cwestiynau. Diben y pwyntiau hyn yw'ch porthi i feddwl a oes angen cymryd rhai camau pellach.

Rhaid ichi gyflwyno'ch cynllun gorffenedig i'ch cyfrif Taliadau Gwledig Cymru (RPW) Ar-lein. Llenwch y cynllun trwy deipio'ch atebion yn y blychau priodol neu drwy brintio'ch cynllun ac ateb y cwestiynau â llaw. Os ydych yn ysgrifennu'ch atebion, bydd yn rhaid ichi sganio'r cynllun er mwyn ichi allu ei gyflwyno i RPW Ar-lein.

Ni fydd modd ichi deipio ar unrhyw ran o'r templed heblaw ym mlwch ateb pob cwestiwn. Ni fyddwch yn gallu newid y cwestiynau na diwyg y ddogfen.

Dylech ateb pob cwestiwn.

Mae'r cynllun wedi'i rannu'n 12 rhan:

Rhan 1) Manylion y Busnes

Rhan 2) Trosolwg Strategol

Rhan 3) Cylchdroi Cnydau, Stocio a Chynllunio

Rhan 4) Rheoli plâu / chwyn / clefydau

Rhan 5) Rheoli tail a slyri

Rhan 6) Rheoli gwastraff

Rhan 7) Cnydau wedi'u haddasu'n enetig (GM)

Rhan 8) Nodweddion Glastir (a Chynlluniau Datblygu Gwledig eraill) ac amgylcheddol eraill

Rhan 9) Codi dŵr

Rhan 10) Opsiynau marchnata

Rhan 11) Camau nesaf

**Rhan 1 – Manylion y Busnes**

Mae lle ar y dudalen flaen ichi gael rhoi Manylion eich Busnes. Gofalwch eich bod yn cysylltu'r cynllun â'r busnes cywir.

**Rhan 2 – Trosolwg strategol**

Dyma ddisgrifiad bras o'r amcanion strategol rydych am eu gwireddu ar gyfer eich busnes. Gallai'r amcanion hyn newid dros amser gan ddibynnu ar y cyfleoedd a'r rhwystrau a wynebir yn y dyfodol.

**Rhan 3 – 10**

Nid ydym yn cynnig help ichi gyda chwestiynau unigol gan ein bod yn credu eu bod nhw'n eithaf hawdd eu deall. Cyn ateb y cwestiynau, darllenwch y pwyntiau sydd wedi'u ysgrifennu o dan bob cwestiwn.

Dim ond 'Ie', 'Na', neu 'Ddim yn berthnasol' sydd eu hangen yn atebion ar gyfer y rhan fwyaf o'r cwestiynau, i'w teipio yn y Blwch Ateb ar ochr dde pob cwestiwn.

**RHAN 3 - CYLCHDROI CNYDAU, STOCIO A CHYNLLUNIO**

| | | |
|---|---|---|
| 2 | Ydych chi wedi paratoi cynllun cylchdroi cnydau a stocio cysylltiedig fydd yn bodloni safonau'ch corff ardystio organig tan ddiwedd eich contract Glastir Organig? | **Ateb** - Ydw / Nac ydw / Ddim yn berthnasol: [ ] |

*Os nad ydych, dylech ystyried paratoi cynllun cylchdroi cnydau a stocio fel rhan o'ch 'Camau Nesaf' isod.*

*Os nad ydych am ddilyn cynllun cylchdroi am eich bod am gadw'ch holl dir yn borfa barhaol, atebwch 'Ddim yn berthnasol'.*

*Os ydych am ostwng lefel eich stoc yn sylweddol, dylech ystyried yr effeithiau ariannol e.e. ar drethi. Hefyd, os ydych am brynu*

Os mai 'Na' yw'ch ateb i unrhyw gwestiwn, nid yw hynny'n golygu nad ydych yn cydymffurfio â'ch Contract Glastir Organig. Ond mae'n golygu y dylech ystyried cymryd camau eraill i wneud yn siŵr eich bod yn cydymffurfio.

Os mai 'Na' yw'ch ateb i unrhyw gwestiwn, nodwch y camau sydd angen eu cymryd yn Rhan 11 – 'Camau nesaf'.

Bydd rhai o'r cwestiynau'n gofyn yn cyfeirio at y taenlenni cynllunio ar [wefan Glastir Organig]().

**RHAN 3 - CYLCHDROI CNYDAU, STOCIO A CHYNLLUNIO**

| | | |
|---|---|---|
| 2 | Ydych chi wedi paratoi cynllun cylchdroi cnydau a stocio cysylltiedig fydd yn bodloni safonau'ch corff ardystio organig tan ddiwedd eich contract Glastir Organig? | **Ateb** - Ydw / Nac ydw / Ddim yn berthnasol: [ ] |

*Os nad ydych, dylech ystyried paratoi cynllun cylchdroi cnydau a stocio fel rhan o'ch 'Camau Nesaf' isod.*

*Os nad ydych am ddilyn cynllun cylchdroi am eich bod am gadw'ch holl dir yn borfa barhaol, atebwch 'Ddim yn berthnasol'.*

*Os ydych am ostwng lefel eich stoc yn sylweddol, dylech ystyried yr effeithiau ariannol e.e. ar drethi. Hefyd, os ydych am brynu stoc organig newydd, bydd angen ichi gyfri'r cynnydd yn eich costau.*

*Mae taenlen* ***opsiynol*** *ar y wefan Glastir Organig i'ch helpu gyda'ch gwaith cynllunio.*

## Rhan 11 – Camau nesaf

Os mai 'Na' oedd eich ateb i unrhyw gwestiwn yn rhannau 3 – 10 neu os oes profiad arall yn gwneud ichi feddwl y dylech gymryd camau pellach, nodwch y 'Camau nesaf' yn Rhan 11. Dylech weithio trwy bob un o'r pwyntiau a gwneud unrhyw waith cynllunio pellach sydd ei angen, ac ystyried ei effeithiau posibl ar eich busnes organig.

Ar ôl ichi ateb y cwestiynau i gyd a nodi unrhyw Gamau Nesaf yng nghwestiwn 24, bydd eich Cynllun Busnes Glastir Organig wedi'i orffen ac yn barod ichi ei gyflwyno i RPW Ar-lein

Ni fydd y cynllun yn gallu ymdrin â phopeth y gallech ei restru yn y Camau Nesaf. Mae'r cynllun wedi'i lunio i'ch porthi i feddwl pa gamau sydd eu hangen. Mater ichi fydd cymryd y camau hynny yn ôl y gofyn.

Efallai y gallai'r sefydliadau a'r pwyntiau gwybodaeth yn Adran D eich helpu.

**Adran C – Manylion Cysylltu a ffynonellau gwybodaeth eraill**

**CANOLFAN GYSWLLT I GWSMERIAID, TALIADAU GWLEDIG CYMRU**
PO Box 1081
Caerdydd
CF11 1SU
Ffôn: 0300 062 5004
E-bost: rpwonline@llyw.cymru

**CYFOETH NATURIOL CYMRU**
d/o Canolfan Gofal Cwsmeriaid
Tŷ Cambria
29 Newport Rd
Caerdydd
CF24 0TP
Ffôn: 0300 065 3000
E-bost: enquiries@naturalresourceswales.gov.uk

**CADW**
Llywodraeth Cymru
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd
CF15 7QQ
Ffôn: 01443 33 6000
E-bost: Cadw@Wales.gsi.gov.uk

**Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys**
41 Broad Street
Y Trallwng
Powys
SY21 7RR
Ffôn: 01938 553670
E-bost: trust@cpat.org.uk
www.cpat.org.uk

**Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent**
Heathfield House
Heathfield
Abertawe
SA1 6EL
Ffôn: 01792 655208
E-bost: enquiries@ggat.org.uk
www.ggat.org.uk

**Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed**
Neuadd y Sir
Stryd Caerfyrddin
Llandeilo
SA19 6AF
Ffôn: 01558 823121
E-bost: info@dyfedarchaeology.org.uk
www.dyfedarchaeology.org.uk

**Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd**
Craig Beuno
Ffordd y Garth
Bangor
Gwynedd
LL57 2RT
Ffôn: 01248 352535
E-bost: gat@heneb.co.uk
www.heneb.co.uk

**Cysylltiadau defnyddiol eraill;**

Canolfan Organig Cymru – newyddion a gwybodaeth am bolisi a marchnadoedd; cyhoeddiadau a digwyddiadau.
http://www.organiccentrewales.org.uk/

Canolfan Ymchwil Organig, Elm Farm – gwybodaeth i gynhyrchwyr organig am ffermio, ymchwil a pholisi.
http://www.organicresearchcentre.com/

IBERS, Prifysgol Aberystwyth – gwybodaeth am amaethyddiaeth gyffredinol.
http://www.aber.ac.uk/en/ibers/

ADAS – gwybodaeth am amaethyddiaeth gyffredinol.
http://www.adas.uk/

ADAS Manure booklet 1 (Arable)
http://www.rothamsted.ac.uk/sites/default/files/Booklet1ManuresArableLand.pdf

ADAS Manure booklet 2 (Livestock)
http://www.rothamsted.ac.uk/sites/default/files/Booklet2ManuresGrassland.pdf

Agricology – gwybodaeth reoli a thechnegol am ffermio organig a chynaliadwy. Cronfa ddata chwiliadwy ar gyfer ffermwyr a thyfwyr.
www.agricology.co.uk

Cymdeithas y Pridd – gwybodaeth am ffermio organig, marchnadoedd ac ymgyrchoedd.
http://www.soilassociation.org/

Ffermwyr a Thyfwyr Organig
http://www.organicfarmers.org.uk/licensees/information-for-farmers-growers/

Ardystiad Quality Welsh Food
http://welshorganic.co.uk/index.php/en/

Biodynamic Association
https://www.biodynamic.org.uk/certification/introduction/

Innovative Farmers
https://www.innovativefarmers.org

Farm Health Online (Duchy College)
www.farmhealthonline.com

Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth – gwybodaeth gyffredinol gan gynnwys cynhyrchu ydau a gwenwynau lladd cnofilod
http://cereals.ahdb.org.uk/press/2015/december/21/rodent-control-hub-to-help-with-new-rules.aspx

Gwasanaeth Cynghori Cyswllt Ffermio
https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/
08456 000 813